



Canolfan Gwlyptir
Llanelli



Canolfan Gwlyptir
Llanelli


Croeso

Map a chynlluniwr diwrnod

- Toiletau
- Golchi dwylo
- Cymorth cyntaf
- Toiletau i'r anabl
- Lle newid babanod
- Caffi
- Lle picnic
- Lle chwarae
- Siop anrhegion
- Golygfan bywyd gwylt
- Golygfan
- Llefydd bwydo adar
- Dim mynediad/allanfa



Golchwch eich dwylo os gwelwch yn dda
Gall pob anifail gario clefyd



Peidiwch colli...

Y bwrdd hysbysebion yn y dderbynfa – mae'n cynnwys rhaglen lawn o weithgareddau sy'n hwyli i'r teulu cyfan.

Fflamingos y Caribî – yn trwsio, yn arddangos neu'n sefyll o gwmpas ar un goes.

Tŵr gwyllo – wrth weld y morfa a'r aber o safbwynt aderyn, cewch syniad da o ddaearyddiaeth y lle.

Cuddfannau – cuddfan Dur Prydain yw'r lle os am olygfeydd godidog o'r morfa a'r aber. Gallwch hefyd ddarganfod cuddfan Adain y Crêyr a chuddfan Syr Peter Scott i brofi dwy ongl wahanol a thrawiadol ar wlyptiroedd y Mileniwm.

Dinas llygoden y dŵr a drysfa nyth yr alarch – llefydd hyfryd i chwarae.

Bwydych yr adar o'ch dwylo – gallwch brynu pecynnau o hadau wrth y ddesg wybodaeth.



Fflamingo Cariblaidd



Drysfa nyth yr alarch



Crêyr bach

Gweithgareddau Tywys

Mae gennym ystod o weithgareddau dyddiol i ddiddanu pob oedran, o'r **sesiynau tywysydd yn y guddfan i sgysiaid fflamingo**. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r bwrdd 'Ymlaen heddiw' am fanylion pan fyddwch yn cyrraedd.

Monday Munchkins – gweithgareddau thematig ar gyfer plant bach bob Dydd Llun yn ystod y tymor ysgol 11yb-12yh.

Penwythnosau a Gwyliau

Mae ein tîm brwdfrydig yn cynnal gweithgareddau addysgol gwych i bob oedran ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Gweler y bwrdd 'Ymlaen heddiw' am fanylion.

Mae gweithgareddau yn cynnwys **trochi pwll, helfeydd bwystfilod bach, adeiladu cartref helyg a chrefftau** (newid yn dymhorol).

Dewch i gwrrd â'n hwyaid bach blewog, yn hanner tymor mis Mai yn ein **dyddiau hwyaid bach**, ac yng ngwyliau haf yr ysgol mae gennym **saffari canŵ** (os yw'r tywydd yn caniatáu) a **llwybrau beicio**. Mae rhai cyfyngiadau oedran yn berthnasol.



Bwydo'r hwyaid



Trochi pwll

Gwybodaeth

Tywyslyfr (ar gael yn y siop). Cewch weld ble rydych chi, a darganfod tipyn mwy am y ganolfan yn ein tywyslyfr swfenir lliw llawn.

Ffansio cwpaned o de neu goffi, neu am dwrio yn y siop?

Dewch i fwynhau dewis o fyrbrydau a phrydau bwyd, neu ddod o hyd i'r anrheg arbennig hwnnw yn y siop gan wybod bod pob ceiniog y byddwch yn ei wario yn helpu cynnal gwaith cadwraeth hanfodol WWT yma ac o gwmpas y byd.



Binocwlars (i'w llogi o'r siop). Gallwch logi binocwlars yn y siop am £5.00 y pâr (+ blaendâl dychweladwy).

Hygyrchedd

Mae llwybrau hawdd eu teithio yn cysylltu'r rhan fwyaf o'r ardaloedd. Mae cadeiriau olwyn a sgwteri trydan ar gael i'w benthg. Er mwyn sicrhau bod un o'r rhain ar gael i chi, a wnewch chi fwcio ymlaen llaw.



Ffotograffiaeth

Mae llawer o'r cuddfannau a thipyn o'r tiroedd yn cynnig cyfleoedd heb eu hail i dynnu lluniau at ddefnydd personol. Am wybodaeth bellach parthed â ffotograffiaeth proffesiynol, ewch i'n gwefan.

Oriau agor

Y Ganolfan: 9.30yb tan 5yh bob dydd. Tiroedd ar agor tan 6yh yn ystod yr haf. Ar gau ar Noswyl y Nadolig a dydd Nadolig.

Caffi: 9.30yb tan 4.30yh. Prydau bwyd twym rhwng 12.00 a 2.30yh.



Hwyaid bach

Cymerwch ofal a helpwch ni i warchod bywyd gwylt y ganolfan

- Cadwch at y llwybrau a chymerwch ofal ger dŵr dwfn.
- Mwynhewch eich cyswllt agos gyda bywyd gwylt ond cofiwch bod pob anifail yn gallu cario heintiau. Mae ymolchi eich dwylo yn ffordd synhwyrol o amddiffyn eich hunain rhag haint, yn enwedig cyn i chi fwyta.
- Mae gan adar glustiau hefyd – byddwch yn gweld mwy o gwmpas y safle ac o'r cuddfannau os byddwch yn cadw'n dawel ac yn nesáu'n araf.
- Mae dail, aeron a blodau yn hanfodol i les ein bywyd gwylt, felly peidiwch â'u casglu os gwelwch yn dda. Gall rhai ohonynt fod yn wenwynig i chi.



Glas y dorlan

Tan y tro nesaf....

Am ragor o wybodaeth am ein digwyddiadau cyson ac arbennig, ac am newyddion am unrhyw greadur anarferol a welir yma, ewch i www.wwt.org.uk/llanelli

Os am dderbyn ein cylchlythr ebost, cofrestrwch yn www.wwt.org.uk/signup

@WWTllanelli

/wwtllanelli

Canolfan Gwlyptir Llanelli

Llwynhendy, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 9SH Ff: 01554 741087

WWT elusen gofrestrdig yn Lloegr a Chymru, rhif 1030884; yn yr Alban rhif SC039410



Hwyaden yr Eithin

Llun clawr: Kyrone Killick